

P-05-1137 Galwad ar i Lywodraeth Cymru roi cyllid teg i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Gohebiaeth – Deisebydd i'r Pwyllgor, 01.02.21

TRAFODAETH YN Y SENEDD

Ar ran y miloedd a lofnododd y ddeiseb mewn cwta bythefnos, gofynnwn ar i Lywodraeth Cymru, ail asesu ei fformiwla ariannu, gan sicrhau ariannu teg i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Basai'n dod a sicrwydd i Gymry a phawb sy'n caru Cymru, bod trysorau'r genedl, yr Archif Genedlaethol, gweithiau celf ag orielau, y casgliad darlledu a chyfryngau, stordy electronig a llawer mwy, yn cael eu cadw yng Nghymru ar gyfer y genhedlaeth bresennol â'r cenedlaethau i ddod.

A ydy Llywodraeth Cymru, prif ffynhonnell ariannu'r Llyfrgell yn sylweddoli, neu'n malio, beth sydd yn y fantol?

Esgeulustod hirdymor, y ddadl bod angen ariannu teg ac ail-ystyried y fformiwla ariannu.

'Our national cultural institutions play a key role in Welsh life, in providing access to our heritage for everyone in Wales, and as an important part of our tourism economy' (Minister for Culture 2018)

'I don't accept that we have made cuts. I have maintained the level of funding of the library.' (Minister for Culture Nov, 2020)

'Coming to Welsh Government for more funding could certainly be part of the solution.' (Jason Thomas WG official, Nov 2020)

- Collodd y LLGC 40% o'i chyllid rhwng 2008-2019, gan nad oedd y **cymorth grant** yn cynnwys lefelau chwyddiant. **Toriad ym mhob dim ond enw.**
- Sut all LLC gyfiawnhau taliadau o £17 miliwn i sefydliadau chwaraeon i wylwyr ar yr un llaw, ond heb fedru canfod £1.5 miliwn i lenwi y bwlch ariannu ar gyfer y LL.G.C. ar y llaw arall?
- Mae'r **cymorth grant** yn llai nad oedd yn 2006. Mae nifer y staff wedi disgyn o 300 i 225, ac er mwyn cydbwysu'r gyllideb yn sgil adolygiad cyflogau a chyfraith bensiynau, bydd rhaid torri 30 swydd bellach yn y12 mis a ddaw. Bydd canlyniad hyn yn golygu colli ddarpariaeth arbenigol, ysgolheictod a sgiliau rheng-flaen caiff eu darparu gan LLGC, gan ei adael yn Lyfrgell mewn enw yn unig.
- A all LC egluro taliad o £250,000 i'r LGC fel rhan o daliad ar yr un llaw, ond wedyn mynnu ad-daliad o £200,000 gan adael enillion-net o 50,000? Ymddengys hyn fel cam gwag a thocynistiaeth i'r cyhoedd.
Er mwyn gallu deall a chymharu a all LC hysbysu'r cyhoedd faint a dalwyd a'r enillion-net i cyrff nodeddig eraill yn yr un cyfnod ?
- A all LC egluro tegwch **gweithredu yr un canran i bob corff nodeddig** (applying the same percentage to all sponsored bodies) gan **nad yw cydraddoldeb deilliant yn cyfateb a chydaddoldeb chanlyniad cyfartal** (as equality of outcome does not equate with equality of process). Mae nifer y staffio cyflogedig yn LLCG yn uwch, ac maent hefyd yn rheoli adeilad. A all LC egluro sut bod taliad cyfartal heb ystyriaeth gofynion sefydliadau yn gwneud synnwyr effeithiolrwydd economaidd?

- Egwyddor economaidd sylfaenol ydy buddsoddi mewn isadeiladedd. A all LC dystio ei bod wedi ystyried ac ymateb i'r pwyntiau a gododd o'r ymgynghoriad LIC gyda'r LLGC, sy'n tanlinellu yr angen o £1.5 miliwn o gymorth i fedru gweithredu sefydliad addas-i-bwrpas yn gweddu'r 21 Ganrif? **Pam gofyn am ymgynghoriad cafodd ei arianu gan trethdalwyr, ac anwybyddu casgliadau'r ymgynghoriad?**
- Yr argraff gyffredinol yw darlun o esgelustod hir dymor gan LC. Beth yw ymateb LLC i'r datganiad nad oes **gweledigaeth, uchelgais na balchder cenedlaethol** yn perthyn i LC yn ei hymateb i argyfwng y LIGC, gan ei drin fel sefydliad taleithiol yn hytrach nag un **sy'n dod dan Siartr Frenhinol**, ac sy'n gartref i drysorau llenyddol a diwylliant Cymru?
- A all LC gyfiawnhau sefyll o'r neilltu pan bod rhoddion ariannol oddeutu £12 miliwn gan y cyhoedd er mwyn hyrwyddo ymchwil a phryniant i ychwanegu at gasgliadau'r Llyfrgell wedi gorfod cael ei ddefnyddio ar gyfer costau rhedeg y sefydliad?
Bydd y sefyllfa fel y mae, yn golygu gorfod defnyddio £1 miliwn ychwanegol i fedru talu costau colli gwaith, gan adael y LIGC gyda £500,000 yn unig yn y gronfa wrth gefn.
- Dengys Astudiaeth Dichonoldeb ar sefydlu Archifdy Cenedlaethol Cymru(2019) a gomisiynwyd **gan yr un Gweinidog Diwylliant**, y basai angen £15-20 miliwn o Fuddsoddiad Cyfalaf; £9 miliwn (£1.8 miliwn yn flynyddol) ar gyfer Sustem Gadw Digidol (Digital Preservation System); £2.1 - £7.5 fel Costau Gweithredu Refeniw (Revenue Operating Cost). Yng ngoleuni hyn a all LC egluro sut nad yw'n gallu sicrhau £1.5 miliwn angenrheidiol i sicrhau gwasanaethau LIGC, sydd ar hyn o bryd yn cartrefu y casgliad fwyaf o archifau yng Nghymru?

Ffyniant i bawb, adeiladu cymunedau cryf hau cymunedau a mynediad rhad i ddiwylliant a iaith i bawb.

Gall sefydliadau diwylliant Cymru rymuso pobl o bob cefndir ac oed, fel y gallont ymgymryd mewn gweithgareddau diwylliannol a chreu cymunedau cydlynol ac effeithiol.

- Caiff LGC ei chydabod fel arloeswr byd eang yn hyrwyddo dysg a gwybodaeth drwy ddulliau digidol, ac yn rhad ac am ddim. Ni'i hystyrir bellach yn sefydliad *Aberystwythaid* yn unig, gan ei bod yn bosib i bawb ym mhob cornel o'r byd, fanteisio ar ei gwasanaethau digidol.
Mae'n siwr bod LLC yr 21 Ganrif, yn gwerthfawrogi manteision gwasanaethau digidol ac os felly, a all LC egluro pam nad yw LLGC wedi derbyn unrhyw gefnogaeth ariannol er mwyn hyrwyddo digideiddio ers 2017? (Yn flynyddol o ddechrau 2000 hyd 2013 bu i lywodraeth gefnogi gyda grant o £850,000 yn flynyddol, yn 2013 torrwyd hyn i £550,000 gan ddiflannu'n llwyr yn 2017).
- **Cyfyngu mynediad i'r cyhoedd.**
A all LC egluro sut mae ganddo'r nod o gryfhau cymunedau tra ar y llaw arall dan-ariannu sefydliad fel LLGC? Mae'n sefydliad sy'n galluogi pobl beth bynnag fo'u sefyllfa neu'u cefndir i gael mynediad rhad i wybodaeth ac addysg, ac arwain at gymunedau grymus?
Gall y toriadau presennol arwain at gau ystafell ddarllen gan adael un ystafell ddarllen i'r cyhoedd yn unig, yn ogystal a'r toriadau i wasanaethau ddaw yn sgil hyn. Golyga hyn ostyngiad yn y niferoedd o ymwelwyr. Amddifedir plant, yn ogystal ag unigolion ledled y byd sy'n ymwneud ag ymchwil, ysgolheigion, Cymry ar wasgar, achrestryddion a rheiny sy'n caru Cymru, llyfrgelloedd a threftadaeth, o adnodd addysgiadol arbennig.

Nid oes gan bawb yn ein cymdeithas mynediad i'r we neu at gyfrifiadur. (Bydd LIC yn ymwybodol bod hyn wedi bod yn anodd i ddysgu o adre yn ystod y cyfnod clo). Mae ysgolion o bob cwr o Gymru yn ymweld a LIGC. A ydy LIC yn hapus bod addysg a gwybodaeth am fod yn rhywbeth i'r breintiedig yn unig?

- **Newyddion ffug a chamwybodaeth yn tanseilio democratiaeth.**
Ydy LIC yn ystyried bod llyfrgelloedd hawlfraint yn chwarae rhan allweddol sy'n galluogi'r cyhoedd i gael gwybodaeth gywir ac yn ddirwystr? Ydy LIC yn gallu cadarnhau bod ganddynt strwythurau ariannol cadarn ar gyfer LIGC i sicrhau bod democratiaeth yn cael ei hyrwyddo drwy Gymru gyfan?
- **Mae esgeulustod yn fath o gamdriniaeth. Mae amddifadu llyfrgelloedd o gefnogaeth ariannol yn un dull o ddistrywio diwylliant cenedlaethol.**
I sylweddoli'r golled a'r hyn sydd yn y fantol, dyma rai enghreifftiau o drysorau sy'n cael cartref yn LIGC :-
 - **6.5 miliwn cyfrol a chyfnodolion**, casgliad archifau mwyaf cynhwysfawr Cymru, portreadau, mapiau a ffotograffau.
 - **Llyfrau prin, gan gynnwys** *A Dictionary in Englyshe and Welshe* William Salesbury (1547), cyfieithiad y Beibl Gymraeg (1588) .
 - **Casgliad cenedlaethol llawysgrifau Cymru** (oddeutu 25,000). Ystyrid casgliad **Peniarth**, sydd er engraifft o bwys ryngwladol ac a gafodd ei gynnwys ar **Gofrestr Treftadaeth Byd** yn 2010. Cyfeirir at enghreifftiau o'r casgliad yma isod:-
 - Llyfr Du Caerfyrddin (c.1250)
 - Llyfr Taliesin (c.1350 -1400)
 - Llyfr Gwyn Rhydderch (c.1350)
 - Ystoreau Seint Greal (c.1300)
 - Brut y Tywysogion (c.1330)
 - Cyfreithiau Hywel Dda (c.1300-1350)
 - **Celf:** Mae'r casgliadau yn cynnwys enghreifftiau unigryw o waith arlunwyr fel Kyffin Williams, Charles Tunnicliffe. a J.M.W Turner. Ceir 15,000 o bortreadau a 50,000 ffotograff a lluniau negyddol (negatives). Casgliad mwyaf o baentiadau a lluniau topograffig yng Nghymru.
 - **Mapiau:** Mae dros filiwn o fapiau yn y LIGC.
 - **Archif Sgrin a Sain Cymru:** Cynhwysir y ffilm fiwograffiadol *The Life Story of David Lloyd George* o 1918 yng *Nghofrestr Cof Byd*. Hystyrir fel y ffilm cofiant gyntaf o'i bath am wleidydd.

Gyda cymaint yn y fantol, a all LC egluro a chyfiawnhau lefelau ariannol presennol? Pam nad yw pryniadau, cadwraeth, ychwanegu a chyfathrebu am dreftadaeth Cymru yn cael y gefnogaeth ariannol briodol?

Mae LIGC, sy'n gartref i drysorau llenyddol a diwyllianol yn eiddo'r genedl.

Yn *A List of Subscribers to the Building Fund* (1924), cyfrifid oddeutu 110,000 o roddion a chyfraniadau ariannol gan y werin tuag at sefydlu LIGC. A ydyw'n deg felly dweud bod **diffyg gweledigaeth ac uchelgais yn perthyn i agwedd Ll.C.** tuag at ddiwylliant a threftadaeth?

- Gyda rhai o **ardaloedd mwyaf difreintiedig gogledd Ewrop yng Nghymru**, a all LIC fforddio llawer dwylo ac anwybyddu buddiannau economaidd a ddaw yn sgil buddsoddi yn niwylliant a threftadaeth unigryw Cymru?
- A ydy LIC wedi ystyried **economi diwylliant**, lle mae buddsoddiad ariannol yn dod a buddiannau economaidd i gymunedau yn lleol yn ogystal a chenedlaethol? Mae

llofnodion i'r ddeiseb bresennol yn cynnwys rhai 50 a mwy o wledydd. Profa hyn y gall LIGC gael swyddogaeth llysgennadol, gan hyrwyddo cyfraniad cyfoethog diwylliant Cymru yma yng Nghymru, yn ogystal ag yn rhyngwladol.

- Er mwyn hyrwyddo LIGC fel **canolfan addysgiadol fywiog**, sy'n dangos treftadaeth Cymru mewn cyd-destun Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach, a all LIC gadarnhau **y bydd yn cyflwyno Hanes Cymru fel rhan o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru?**

Deisyfwn y bydd i adnoddau a chyfleusterau addysgol, bo rheiny yn ddigidol neu fel arall, yn chwarae rhan ganolig i hyrwyddo cwricwlwm ysgolion, fel y gall bob plentyn yng Nghymru gael mynediad i ddiwylliant, iaith a hanes Cymru.

States are encouraged to provide appropriate legislative frameworks for memory institutions and ensure their necessary independence in preserving and providing access to documentary heritage.
(UNESCO, Recommendation on Documentary Heritage, 2015)

Atebolrwydd a Thryloywdeb LIC yn ystod trafodaethau â'r LIGC. Yng ngoleuni esgelustod gwarthus y cyfnod diweddar gan LIC tuag at y LGC, a ydy LC yn cytuno bod angen gwella effeitholrwydd gweithred a chyfathrebu?

Pwyntiau Gweithredu:

- Dylid ail edrych ar aelodau'r Bwrdd Rheoli. Dylai y mwyafrif fod yn arbennigwyr llyfrgellyddol neu cadwraethol. Basai rhain yn gallu arwain yn fwy effeithiol ar faterion o ariannu a staffio. Gallent hefyd dod i gasgliadau proffesiynol, gan gydbwyso ariannu cyhoeddus a masnachol.
- Dylai sefydliad o bwys cenedlaethol fel y LIGC ddod yn uniongyrchol o dan arolygaeth y Prif Wenidog.
- Dylid ail-agor yr Adolygiad a dylai unrhyw drafodaethau pellach ynglyn a dyfodol y LIGC gynnwys dirprwyaeth ehangach o'r cyhoedd. Aelodau heb eu hethol, ac felly ddim yn atebol i'r cyhoedd ac o gyrff cyhoeddus eraill oedd ar y *Challenge Panel of the Welsh Government Board*. Nid oedd un ohonynt o gefndir a **phrofiad rheoli treftadol neu cadwraethol**. Gofynnwn am ymgynghoriad gyda chynrychiolaeth yn dod o fysg defnyddwyr, academyddion, ymchwylwyr a chefnogwyr LIGC.
- Dylai LIGC gael yr hawl i ateb a dylai LC dystio eu bod yn gwranddo, clywed ac ymateb.